

Sefyllfaoedd a
gweithdrefnau

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru Mai 2016: Pleidiau

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pleidiau
gwleidyddol sy'n ymgyrchu yn etholiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016

Ffurflenni eraill y gall fod eu
hangen arnoch:

I'w gyhoeddi

Cynnwys:

Y cyfnod a reoleiddir

Terfynau gwario

Gwariant ar ymgyrchu

Cofnodi gofynion a dyddiadau cau

Cyfieithiadau a fformatau eraill



I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith os dilynwch y canllawiau hyn.

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllaw a'n gwasanaeth cyngori.

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

www.electoralcommission.org.uk/cymru/enforcement

Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau ar wariant i bleidiau gwleidyddol yn y cyfnod cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- y cyfnod a reoleiddir
- terfynau gwario
- gwariant ar ymgyrchu
- gofynion adrodd
- dyddiadau a digwyddiadau allweddol

Dogfennau cysylltiedig:

- [Trosolwg o wariant ar ymgyrch y blaid](#)
- [Trosolwg: Cyfnodau rheoledig ar gyfer pleidiau gwleidyddol 2016](#)
- [Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid](#)
- [Trosolwg o roddion i bleidiau \(Prydain\)](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau \(Prydain\)](#)

Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) mae rheolau ar wariant a chodi arian y mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol eu dilyn yn y cyfnod cyn etholiadau.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r prif reolau ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhelir yn 2016.

Mae'n ymdrin â'r cyfnod a reoleiddir, terfynau gwario, gwariant ar ymgyrchu, gofynion adrodd a'r dyddiadau cau.

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) mae rheolau ar wariant a chodi arian y mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol eu dilyn yn y cyfnod cyn rhai etholiadau.

Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am y cyfnod a reoleiddir, terfynau gwario, gwariant ar ymgyrchu, gofynion adrodd a dyddiadau cau ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhelir ar 5 Mai 2016.

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'chi' neu'r 'unigolyn cyfrifol', er mwyn cyfeirio at yr unigolyn sy'n gyfrifol am wariant ar ymgyrchu.

Dylech ddarllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r dogfennau cysylltiedig y cyfeiriwn atynt. Maent yn rhoi gwybodaeth bwysig a fydd yn eich helpu i ddilyn y rheolau.

Gall ymgeiswyr yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016 sefyll fel:

- ymgeisydd etholaethol yn un o'r 40 o etholaethau
- ymgeisydd rhanbarthol annibynnol yn un o'r 5 rhanbarth
- ymgeisydd rhestr plaid rhanbarthol yn un o'r 5 rhanbarth

Mae'r canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig hyn y cyfeiriwn atynt **ond** yn gymwys i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol. Mae'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr etholaethol a rhanbarthol annibynnol yn wahanol. Rydym yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a'u hasiantiaid sy'n ymladd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016.



Mae ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr etholaethol a rhanbarthol annibynnol ac asiantiaid sy'n ymladd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael yma:

[Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid: Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)



Daeth Gorchymyn Anghymhwysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015 i rym ar 1 Medi 2015. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r rheini na allant sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016. Gellir gweld y Gorchymyn [yma](#).

Y cyfnod a reoleiddir

Gwariant ar ymgyrchu yw'r hyn y mae eich plaid yn ei wario ar weithgareddau i hyrwyddo'r blaid neu i feirniadu pleidiau eraill ar adeg benodol yn y cyfnod cyn yr etholiad.

Gelwir y cyfnod hwn yn 'gyfnod a reoleiddir'. Pan ddefnyddiwn y term cyfnod a reoleiddir rydym yn golygu'r adeg pan fydd y terfynau gwario a'r rheolau yn gymwys.

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016 yn dechrau ar **5 Ionawr 2016** ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, **5 Mai 2016**.

Os oes gan eich plaid ymgeiswyr ar restr ranbarthol, bydd gwariant ar ymgyrchu'r blaid hefyd yn cynnwys gwariant ar weithgareddau i hyrwyddo'r ymgeiswyr rhestr plaid.

Bwriedir i'r refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd gael ei gynnal erbyn diwedd 2017 ond nid oes dyddiad wedi'i gadarnhau eto. Yn y cyfnod cyn y refferendwm bydd adeg pan fydd y rheolau ar wariant ar ymgyrchu a'r rhoddion a'r benthyciadau yn gymwys i ymgyrchwyr sy'n ymgyrchu ar y refferendwm. Gelwir hyn yn gyfnod y refferendwm.

Yn dibynnu ar ddyddiad y refferendwm, mae'n bosibl y gall cyfnod y refferendwm orgyffwrdd â'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau eraill sy'n cael eu cynnal ar 5 Mai 2016. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i esbonio effaith y cyfnodau hyn sy'n gorgyffwrdd i bleidiau ac ymgyrchwyr sy'n ymgyrchu yn y refferendwm ac yn etholiadau mis Mai 2016.

Mae rhagor o wybodaeth am gyfnodau a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn 2016 ar gael yn ein dogfen ganllaw:

[Trosolwg o gyfnodau a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol 2016](#)

Y terfyn gwario

Seilir yr uchafswm y gallwch ei wario ar ymgyrchu yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar sawl etholaeth a rhanbarth y mae eich plaid yn eu hymladd yn yr etholiad.

Mae 40 o etholaethau yng Nghymru a 5 rhanbarth. Mae 4 sedd ym mhob un o'r 5 rhanbarth, sy'n gwneud cyfanswm o 20 o seddau rhanbarthol. Gall plaid gynnig hyd at 12 o ymgeiswyr fesul rhanbarth.

Eich terfyn gwario yw £10,000 ar gyfer **pob etholaeth** a ymleddir gan eich plaid, **ynghyd â** £40,000 ar gyfer **pob rhanbarth** a ymleddir gan eich plaid.

Mae'r terfyn gwario rhanbarthol yn gymwys hyd yn oed os **nad ydych** yn cynnig rhestr lawn o 12 o ymgeiswyr yn y rhanbarth.

Mae'r terfyn gwario yn derfyn cenedlaethol, sy'n golygu nad oes rhaid i chi briodoli eich gwariant rhwng etholaethau a rhanbarthau.

Os yw eich plaid yn ymladd ym mhob etholaeth a rhanbarth, bydd cyfanswm y terfyn gwario yn **£600,000**:

£10,000 x 40 o etholaethau	£400,000+
£40,000 x 5 rhanbarth	£200,000
Cyfanswm	£600,000

Dim ond os yw'r gwariant mewn etholiadau ar gyfer awdurdodau lleol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn syrthio o fewn cyfnod a reoleiddir un o'r etholiadau ar y rhestr y caiff ei gwmpasu gan reolau gwariant ar ymgyrchu plaid.

Yn 2016, caiff gwariant plaid ar yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ei gwmpasu gan y rheolau.

Er Enghraifft

Mae'r enghraifft isod yn dangos sut i gyfrifo'r terfyn gwario ar gyfer eich plaid. Rhaid i chi gyfrifo gwariant eich plaid drwy weithio allan sawl etholaeth a rhanbarth y bydd eich plaid yn eu hymladd yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a lluosir niferoedd hyn â'r terfyn gwario ar gyfer yr etholaeth a/neu'r rhanbarth.

Nifer yr etholaethau/rhanbarthau a ymleddir	Cyfrifo	Cyfanswm £
25 o etholaethau	25x £10,000	£250,000
3 rhanbarth	3x £40,000	£120,000
Cyfanswm y terfyn gwariant		£ 370,000

Gwariant ar ymgyrchu

Gwariant ar ymgyrchu yw'r hyn y mae eich plaid yn ei wario ar weithgareddau penodol i hyrwyddo ei hun neu i feirniadu pleidiau eraill, yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Os oes gan eich plaid ymgeiswyr ar restr ranbarthol, bydd gwariant ymgyrchu'r plaid hefyd yn cynnwys gwariant ar weithgareddau i hyrwyddo'r ymgeiswyr rhestr plaid.

Mae'n cynnwys:

- eitemau neu wasanaethau a brynwyd cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod hwnnw
- eitemau neu wasanaethau a roddir i'r plaid am ddim neu a gynigir am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10% (gweler 'Gwariant tybiannol' ar dudalen 14)

Rhai rhoi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am bob gwariant gan y plaid ar ôl yr etholiad.

Rhoddir gwybod am roddion a benthyciadau gan bleidiau bob chwarter pan fyddant wedi mynd heibio trothwy penodol neu pan na chânt eu caniatáu.

Nid oes unrhyw ofynion ychwanegol i bleidiau roi gwybod am roddion a benthyciadau yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfrifoldeb am wariant ar ymgyrchu

Pwy sy'n gyfrifol am wariant ar ymgyrchu'r plaid?

Trysorydd cofrestredig plaid sydd fel arfer yn gyfrifol am sicrhau bod y plaid yn dilyn y rheolau ar wariant ar ymgyrchu. Fodd bynnag, os yw plaid wedi cofrestru swyddog ymgyrchu, yr unigolyn hwn sy'n gyfrifol am wariant ar ymgyrchu yn lle hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a ganiateir a rhoddion a benthyciadau gweler ein canllawiau:

- [Trosolwg o roddion i bleidiau \(Prydain\)](#)
- [Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau \(Prydain\)](#)

I gael rhagor o wybodaeth am drysoryddion plaid, gweler y ddogfen hon:

[Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid](#)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'chi' neu'r 'unigolyn cyfrifol' i gyfeirio at yr unigolyn sy'n gyfrifol am wariant ar ymgyrchu. Y swyddog ymgyrchu fydd hwn os penodwyd un, neu'r trysorydd cofrestredig os nad oes un.

Gallwch benodi dirprwyon i'ch helpu gyda rhai o'ch cyfrifoldebau. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio [ffurflen RD5](#)

Awdurdodi a thalu treuliau'r ymgyrch

Dim ond yr 'unigolyn cyfrifol' a gofrestrwyd gyda ni a phobl a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y person cyfrifol a all fynd i gostau o ran gwariant ar ymgyrchu.

Er enghraifft, gall rhywun gael ei awdurdodi i wario arian ar eitemau penodol, neu hyd at swm penodol.

Mae'r rheolau hyn ar waith er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r gwariant a'i gofnodi ac adrodd arno yn gywir.

Dylech sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn gwybod pwy all ac na all fynd i gostau.

Treuliau personol

Rhaid i'r trysorydd benodi asiant etholiad ar gyfer pob rhanbarth y mae gan y blaid ymgeiswyr ar gyfer y rhanbarth hwnnw. Asiant etholiad sy'n gyfrifol am awdurdodi a thalu treuliau personol yr eir iddynt gan ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol yn y cyfnod a reoleiddir.

Mae treuliau personol yn cynnwys treuliau teithio a byw rhesymol (fel costau gwesty) yr ymgeisydd rhestr plaid rhanbarthol.

Dim ond am dreuliau personol hyd at £900 y gall ymgeisydd rhestr plaid rhanbarthol dalu. Yr asiant etholiad sy'n gyfrifol am dalu treuliau personol ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol dros £900.

Nodir y gofynion hyn yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a gallant newid cyn cael cymeradwyaeth Seneddol derfynol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar ein gwefan os bydd unrhyw newidiadau i'r ffigurau hyn.

Ystyr 'mynd i gostau' yw gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian, fel cadarnhau gorchymyn.



Mathau o wariant ar etholiad

Mae mathau gwahanol o wariant gan neu ar ran pleidiau mewn etholiadau, sef:

gwariant ar ymgyrchu i hyrwyddo'r blaid a'i pholisiau yn gyffredinol

Er enghraifft, hysbysebion papurau newydd cenedlaethol ar gyfer y blaid, neu daflenni yn esbonio polisi'r blaid.

- gwariant ar ymgyrchu i hyrwyddo ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol.

Er enghraifft, digwyddiad cyhoeddus yn y rhanbarth i hyrwyddo ymgeiswyr rhestr plaid.

Mae ymgeiswyr etholaethol plaid sy'n sefyll etholiad mewn etholaeth yn gyfrifol am eu gwariant eu hunain ar ymgyrchu. Bydd gwariant ar hyrwyddo eu hymgeiswyr yn yr etholaeth yn cyfrif tuag at eu terfyn gwario eu hunain ar ymgeiswyr. Os bydd ymgeisydd plaid yn sefyll mewn etholaeth a rhanbarth, dim ond y gwariant ar hyrwyddo'r ymgeisydd yn y rhanbarth fydd yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r blaid.

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn ymdrin â **gwariant ar ymgyrchu plaid a gwariant ar hyrwyddo ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol** yn unig. I gael gwybodaeth am wariant ar ymgyrchu, gweler ein canllawiau i [ymgeiswyr ac asiantiaid](#)

Ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol a gwariant y blaid

Mae gwariant ar hyrwyddo ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r blaid ar yr ymgyrch, a rhaid rhoi gwybod amdano i'r blaid.

Gall ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol sydd **ond** yn sefyll ar restr plaid, fynd i gostau personol. Bydd y treuliau hyn ond yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r blaid, os bydd y blaid yn ad-dalu'r ymgeisydd am y treuliau personol hyn.

Rhaid i ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol roi datganiad ysgrifenedig o dreuliau personol y maent wedi'u talu i'w hasiant rhanbarthol, o fewn 21 diwrnod i ddatgan canlyniad yr etholiad. Nodir y gofyniad hwn yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a gall newid pan fydd Gorchymyn newydd yn cael cymeradwyaeth Seneddol derfynol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar ein gwefan os bydd newid.

Rhaid i ymgeisydd rhestr plaid rhanbarthol gyflwyno datganiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, ar yr un pryd ag y bydd y blaid yn cyflwyno ei ffurflen gwariant neu o fewn saith diwrnod i'r blaid gyflwyno'r ffurflen yn cadarnhau bod ffurflen gwariant y blaid yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eu gwytodaeth a'u cred. Nodir y gofyniad hwn yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a gallant newid pan fydd Gorchymyn newydd yn cael cymeradwyaeth Seneddol derfynol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar ein gwefan os bydd newid.

Ymgeiswyr deuol

Gall ymgeiswyr sefyll fel ymgeisydd rhestr plaid rhanbarthol a hefyd fel ymgeisydd etholaethol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016. Gelwir hyn yn "**ymgeiswyr deuol**".

Nid oes gan ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol sy'n sefyll ar restr plaid derfyn gwario ar wahân ar gyfer ymgeiswyr, **oni bai** eu bod yn sefyll fel ymgeisydd etholaethol ar yr un pryd. Bydd



Mae ymgeiswyr deuol wedi cael ei adfer gan Ddeddf Cymru 2014.

I gael rhagor o wybodaeth am ddull ymgeiswyr deuol, gweler ein taflen ffeithiau [yma](#).

gan ymgeiswyr deuol derfyn gwario ar wahân ar gyfer unrhyw ymgyrchu etholaethol o fewn yr etholaeth y maent yn ei hymladd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein taflen ffeithiau ar ymgeiswyr deuol [yma](#).

Os bydd ymgeisydd yn sefyll dros fwy nag un blaid mewn etholaeth, caiff terfyn gwario'r **blaid** o £10,000 ar gyfer yr etholaeth honno ei rannu rhwng y pleidiau.

Dyrannu gwariant ar ymgyrchu rhwng y blaid a'r ymgeiswyr etholaethol

Weithiau bydd angen i chi benderfynu a ddylai gwariant ar ymgyrchu gyfrif tuag at derfyn gwario'r blaid, neu derfyn gwario ymgeisydd sy'n sefyll dros eich plaid mewn etholaeth benodol.

Nid oes angen i wariant ar ymgyrchu gael ei gyfrif yn erbyn terfynau gwario'r blaid a'r ymgeisydd. Bydd fel arfer yn syrthio i'r naill categori neu'r llall.

Os nad ydych yn siŵr ar unwaith a fydd rhywbeth yn hyrwyddo'r blaid, (gan gynnwys ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol), neu ymgeisydd etholaethol, rhaid i chi wneud asesiad gonest a rhesymol, yn seiliedig ar y ffeithiau, er mwyn gweld a ddylai'r gwariant ar ymgyrchu gael ei ddyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd.

Dim ond os ydych yn siŵr ei fod yn rhesymol gwneud hynny y dylech rannu costau eitem rhwng terfynau gwario'r blaid a'r ymgeisydd.

Ni ddylech rannu costau eitem os caiff ei chynhyrchu'n bennaf er mwyn hyrwyddo ymgeisydd etholaethol, ac os yw'n defnyddio enw'r blaid neu'n cyfeirio at bolisiâu'r blaid a hynny er mwyn cefnogi'r nod hwnnw yn unig.

Er enghraifft, os bydd taflen yn canolbwyntio ar ymgeisydd etholaethol ond yn cynnwys rhai o addewidion allweddol y blaid fel ffordd o ddweud wrth bleidleiswyr beth mae'r ymgeisydd yn sefyll drosto, bydd hyn yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgeisydd, os cafodd ei awdurdodi gan asiant yr ymgeisydd.

Os byddwch yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y dylech ddyrannu eitem o wariant, ffoniwch neu [e-bostiwch](#) ni i gael cyngor.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant?

Mae gweithgareddau a gynhwysir mewn gwariant ar ymgyrchu yn cynnwys y canlynol:

- hysbysebion o unrhyw fath. Er enghraifft, baneri stryd, gwefannau neu fideos YouTube
- deunydd a anfonwyd at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni a anfonwch nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol
- y maniffesto a dogfennau eraill yn nodi polisiâu eich plaid
- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio
- cynadleddau i'r wasg neu ddelio â'r cyfryngau mewn ffyrdd eraill
- raliâu a digwyddiadau, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch

Pa gostau a gaiff eu cynnwys?

Rhaid i chi gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd. Er enghraifft, os ydych yn llunio taflenni neu hysbysebion, rhaid i chi gynnwys y costau dylunio a dosbarthu.

Rhaid i chi hefyd gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys biliau ffôn uwch ar gyfer eich swyddfa.

Rhaid i chi wneud asesiad gonest yn seiliedig ar y ffeithiau o ran y swm sydd angen i chi ei gofnodi.



Dylai'r holl gostau gynnwys TAW, hyd yn oed os gallwch adennill taliadau TAW.

Deunydd y gellir ei lawrlwytho

Os rhoddwch ddeunydd ar wefan i bobl ei argraffu at eu defnydd personol, fel posteri ffenestr neu ffurflenni deiseb, bydd y costau dylunio a chostau'r wefan yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu. Nid oes angen i chi gyfrif costau argraffu pobl yn erbyn eich terfyn gwario, gan y bydd y costau'n fach iawn.

Os caiff y deunydd ei argraffu a'i ddsbarthu i bleidleiswyr - er enghraifft, taflen - bydd angen i chi esbonio sut rydych yn disgwyl i bobl ei defnyddio. Os byddwch yn awdurdodi defnydd ehangach o'r deunydd, gall y costau cynhyrchu gyfrif fel gwariant ar ymgyrchu ni waeth pwy sy'n gwneud y gwaith argraffu.

Darllediadau pleidiau gwleidyddol

Os oes gennych hawl i ddarllediadau pleidiau gwleidyddol, rhaid i chi gynnwys y costau cynhyrchu fel gwariant ar ymgyrchu. Nid oes angen i chi gynnwys gwerth yr amser ar yr awyr.

Beth nad yw'n cyfrif fel gwariant?

Ymhlith y gweithgareddau **nad ydynt** yn cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu mae:

- costau staff parhaol, cyfnod penodol neu dros dro lle mae gan yr aelod o staff contract cyflogaeth uniongyrchol â'r blaid
- amser gwirfoddolwyr
- costau rhedeg swyddfa, heblaw am gostau sy'n uwch nag arfer oherwydd gwaith ymgyrchu, fel biliau ffôn
- costau teithio, bwyd a llety pobl tra byddant yn ymgyrchu, oni bai eich bod yn eu had-dalu
- treuliau a delir o arian cyhoeddus. Er enghraifft, costau diogelwch ar gyfer ymweliadau VIP
- deunydd a anfonir at eich aelodau yn unig
- cynadleddau plaid

- cylchlythyrau lleol am gynrychiolwyr etholedig neu ddarpar ymgeiswyr
- unrhyw beth y mae ymgeisydd yn ei ddatgan yn briodol ar ei ffurflen gwariant
- adneuo ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol

Amser gwirfoddoli

Weithiau efallai na fyddwch yn siŵr a yw rhywun yn wirfoddolwr neu a ddylai ei amser gael ei drin fel gwariant tybiannol. Er enghraifft, efallai eu bod yn cynnig gwasanaethau tebyg yn broffesiynol i'r rhai y maent yn eu cyflawni i chi.

Byddant yn wirfoddolwyr:

- os na fydd eu cyflogwr yn eu talu am yr amser a dreulir ganddynt ar eich ymgyrch, neu
- os byddant yn defnyddio eu gwyliau blynyddol, neu
- os na fyddwch yn elwa ar unrhyw yswiriant proffesiynol sydd ganddynt, os ydynt yn hunangyflogedig

Os byddant yn defnyddio cyfarpar neu ddeunyddiau arbenigol, dylech ystyried a yw eu defnydd yn wariant tybiannol, gan ddefnyddio'r egwyddorion yn yr adran nesaf.

Gwariant Tybiannol

Weithiau cewch eitemau neu wasanaethau am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol. Gall hyn ddigwydd os bydd unigolyn neu sefydliad arall yn cefnogi eich ymgyrch.

Gwariant tybiannol yw'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol am eitem neu wasanaeth a'r pris a dalwch.

Os byddwch yn defnyddio unrhyw eitemau neu wasanaethau a roddir i chi am ddim, neu am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, wrth ymgymryd â'ch gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir, gall gwerth y gwariant tybiannol gyfrif tuag at eich terfyn gwario a rhaid ei gofnodi ar eich ffurflen gwariant.

Rhaid i chi gofnodi gwerth masnachol llawn yr eitemau neu'r gweithgareddau hyn:

- os cewch yr eitem am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, **ac**
- mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol a'r hyn a dalwch dros £200

Os cewch ostyngiad o 10% neu lai, neu os yw'r gwahaniaeth mewn gwerth yn £200 neu lai, dim ond y swm a dalwch y mae'n rhaid i chi ei gofnodi.

Prisio gwariant tybiannol

Os yw'r cyflenwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel y gwerth masnachol.

Dylech gadw cofnod o'r modd y daethoch i'ch prisiad a chadw copïau o unrhyw ddyfynbrisiau a gewch.

Rhaid i'r gwerth a ddatganwch ar eich ffurflen gwariant fod yn asesiad gonest a rhesymol o'r gwerth masnachol.



Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi, yn benodol, gan gyflenwyr

Er enghraifft:

Cewch swyddfeydd y gallwch redeg eich ymgyrch ohonynt am ddim, a ddefnyddiwch am bedwar mis llawn y cyfnod a reoleiddir.

Byddech yn cyfrifo ac yn rhoi gwybod am y gwariant tybiannol fel y'i nodir isod:

Cyfradd fasnachol am rent misol:	Gwerth masnachol am bedwar mis o rent:	Gwariant tybiannol i'w gofnodi:
£1,200	$£1,200 \times 4 = £4,800$	£4,800

Staff ar secondiad

Os bydd cyflogwr yn secondio aelod o staff ar gyfer eich ymgyrch, rhaid i chi gofnodi ei gyflog gros ac unrhyw lwfansau ychwanegol fel y gwerth tybiannol.

Nid oes angen i chi gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol na phensiwn y cyflogwr.

Rhannu gwariant

Pam y gall fod angen i chi rannu gwariant

Efallai y bydd angen i chi rannu eich costau rhwng gweithgareddau a deunyddiau sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu a'r rheini nad ydynt.

Dyma ddwy enghraifft gyffredin i ddangos ble mae angen i chi rannu gwariant:

- os defnyddiwch eich swyddfa fel lleoliad ar gyfer canfasio dros y ffôn, bydd angen i chi rannu'r bil ffôn rhwng galwadau canfasio, a galwadau nad ydynt yn ymwneud â'r ymgyrch
- os byddwch yn defnyddio gwaith dylunio ar gyfer ymgyrchu cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ac yn parhau i'w ddefnyddio ar ôl iddo ddechrau, bydd angen i chi rannu'r costau dylunio rhwng y ddau gyfnod

Er enghraifft:

Rydym yn comisiynu gwaith dylunio ar gyfer logo ymgyrch ar gyfer eich plaid a ddefnyddiwch ar eich gwefan, cyfryngau cymdeithasol eraill ac ar holl ddeunydd eich ymgyrch am fis cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau ac yn ystod y cyfnod a reoleiddir o bedwar mis.

Dylech rannu'r gost dylunio yn gyfartal ar draws yr holl amser y byddwch yn ei ddefnyddio yn y ffordd hon.

Costiodd y gwaith dylunio £15,000, a gwnaethoch ei ddefnyddio am gyfnod o bum mis, felly'r gost fesul mis yw $£15,000 \div 5 = £3,000$ y mis.

Cwmpasodd y cyfnod a reoleiddir y pedwar mis olaf, felly cost y gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir yw:

$$4 \times £3,000 = £12,000$$

Rhaid i **£12,000** gael ei gofnodi fel gwariant ymgyrchu plaid

I gael rhagor o wybodaeth am rannu gwariant, gweler y ddogfen hon:

[Papur arbenigol: Rhannu gwariant](#)

Efallai y bydd angen i chi rannau eich costau rhwng y blaid ac ymgeisydd etholaethol, os yw'r gwariant wedi cael ei awdurdodi gan asiant yr ymgeisydd.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn llogi car ar gyfer aelod o staff sy'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gweithio ar ymgyrch ranbarthol y blaid, a'r gweddill yn gweithio i ymgeisydd etholaethol mewn etholaeth benodol.

Yr egwyddor asesu onest

Ym mhob achos dylech wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch ymgyrch.

Weithiau, gall fod yn anodd gwneud rhaniad union gywir. Er enghraifft, efallai mai dim ond dadansoddiad o gostau galwadau dros werth penodol y gall eich bil ffôn ei ddarparu.

Yn yr achosion hyn, dylech ystyried y ffordd orau o wneud asesiad gonest ar sail y wybodaeth sydd gennych. Er enghraifft, gallech gymharu'r bil ag un nad yw'n cwmpasu cyfnod a reoleiddir.

Os ydych yn dal i fod yn ansicr, ffoniwch neu [e-bostiwch](#) ni i gael cyngor.



Rhaid i chi lofnodi i ddatgan bod y ffurflen yn gyflawn a chywir hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbwyll.

Rhoi gwybod i ni

Rhaid i bleidiau gwleidyddol sy'n ymladd etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol ar ôl yr etholiad am fanylion eu gwariant ar ymgyrchu.

Rhoddion a benthyciadau

Rhoddir gwybod am roddion a benthyciadau gan bleidiau bob chwarter pan fyddant wedi mynd heibio trothwy penodol neu pan na chânt eu caniatáu.

Nid oes gofynion ychwanegol ar bleidiau o ran rhoi gwybod am roddion a benthyciadau yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er y dylech sicrhau bod gennych systemau ar waith er mwyn i asiantiaid roi'r holl wybodaeth angenrheidiol am roddion a benthyciadau i'r blaid.

Caiff rhoddion i ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol eu hystyried yn rhoddion i'r blaid. Pan gewch rodd, rhaid i chi gadarnhau y gallwch ei derbyn, ei chofnodi ac mewn rhai achosion, roi gwybod i ni amdani. Os nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu os nad ydych yn gwybod, am ba reswm bynnag, oddi wrth bwy yn union y cawsoch y rhodd, rhaid i chi ei dychwelyd o fewn 30 diwrnod i'w derbyn a rhoi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol.

Cofnodi gwariant ar ymgyrchu

Rhaid i chi gofnodi'ch holl wariant ar ymgyrchu. Bydd angen i chi anfon y wybodaeth hon atom ar eich ffurflen gwariant ar ôl yr etholiad.

Mae hyn yn cynnwys gwariant ar ymgyrchu i ymgeiswyr sy'n sefyll ar restr plaid ranbarthol.

Rhaid i chi gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw daliadau dros £200.



Mae ein canllawiau ar reoli rhoddion a benthyciadau ar gyfer pleidiau ym Mhrydain Fawr ar gael yma:

[Trosolwg o roddion i bleidiau \(Prydain\)](#)

Nid oes angen i chi gofnodi nac anfon manylion atom am dreuliau **personol** ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol, oni fydd y blaid wedi ad-dalu'r ymgeisydd. Os mai'r blaid fydd yn ad-dalu'r ymgeisydd yna gwariant y blaid fydd hyn (gweler tudalen 9).

Beth sydd angen i chi ei gofnodi

Ar gyfer pob eitem o wariant, dylech gofnodi'r wybodaeth ganlynol i'w rhoi ar eich ffurflen gwariant:

- ar gyfer beth roedd y gwariant - er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth
- ar ba ddyddiad y gwnaethoch wario'r arian

Eitemau a roddir am ddim

Os cewch eitemau am ddim rhaid i chi gofnodi gwerth marchnad llawn yr eitem os yw'n fwy na £200 (gweler gwariant tybiannol, tudalen 14).

Eitemau a roddir am bris gostyngol anfasnachol

Os cewch eitemau am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, ac mae'r gwahaniaeth mewn gwerth yn fwy na £200, rhaid i chi gynnwys gwerth marchnad llawn yr eitem (gweler gwariant tybiannol, tudalen 14).



Os bydd gan eitem werth o fwy na £500, ac os caiff ei rhoi am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol, bydd yn rhodd.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

[Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol](#)

Terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau

Mae'n **rhaid** i'r unigolyn cyfrifol dderbyn pob anfoneb ar gyfer eich gwariant ar ymgyrchu o fewn terfynau amser penodol.

Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi gael pob anfoneb gan gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i'r etholiadau. Y diwrnod olaf ar gyfer derbyn anfonebau gan eich cyflenwyr yw **6 Mehefin 2016**.

Galwn hawliadau (anfonebau ar gyfer gwariant ar ymgyrchu) nas derbynnir o fewn y terfyn amser o 30 diwrnod yn **hawliadau heb eu talu**. Os na chewch anfoneb o fewn 30 diwrnod, ni ddylech ei thalu heb gael gorchymyn llys i wneud hynny. Dylech hysbysu eich cyflenwyr o hyn.



Talu anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau gan gyflenwyr o fewn 60 diwrnod i'r etholiadau. Y diwrnod olaf ar gyfer talu anfonebau yw **4 Gorffennaf 2016**.

Galwn hawliadau (anfonebau ar gyfer gwariant ar ymgyrchu) nas derbynnir o fewn y terfyn amser o 60 diwrnod yn **hawliadau sy'n destun anghydfod**. Os na thalwch anfoneb o fewn 60 diwrnod, rhaid i chi gael gorchymyn llys i allu gwneud hynny.

Mae'n drosedd torri'r rheolau hyn heb esgus rhesymol.

Rhoi gwybod ar ôl yr etholiadau

Rhaid i chi roi gwybod i ni am eich gwariant ar ymgyrchu ar ôl yr etholiadau.

Rhaid i'ch ffurflen gwariant gynnwys y canlynol:

- manylion eich gwariant
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- datganiad gan yr 'unigolyn cyfrifol' i ddweud bod y ffurflen yn gyflawn a chywir

Gallwch roi gwybod am eich gwariant ar ymgyrchu drwy PEF Online.

Ewch i:

<https://pefonline.electoralcommission.org.uk/Default.aspx>

Rydym hefyd yn cynhyrchu **ffurflenni** a **nodion esboniadol** y gallwch eu defnyddio ar gyfer hyn: insert link to form here
Maent yn ymdrin â'r holl wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chynnwys.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhestr plaid rhanbarthol gwblhau datganiad yn cadarnhau bod gwariant ar ymgyrchu'r blaid yn gywir. Mae'n rhaid cyflwyno hon i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o fewn 7 diwrnod i'r diwrnod y cyflwynodd y blaid ei ffurflen.


Nodir y gofyniad hwn yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 a gallant newid pan fydd Gorchymyn newydd yn cael cymeradwyaeth Seneddol derfynol. Byddwn yn rhoi diweddariad ar ein gwefan os bydd newid.



Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n fyrbyyll.

Dyddiadau cau hysbysu ymgyrch

Mae'r dyddiad y mae'n rhaid i chi ein hysbysu yn dibynnu ar faint y gwnaethoch ei wario ar eich ymgyrch. Dangosir y dyddiadau cau isod.



Gallech gael eich cosbi os na chyflwynwch eich ffurflen ar amser.

Digwyddiad	Dyddiad	Cam Gweithredu
Y cyfnod a reoleiddir yn dechrau	Dydd Mawrth 5 Ionawr 2016	Dechreuwch gofnodi eich gwariant.
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i gofrestru plaid wleidyddol	Dydd Llun 22 Chwefror 2016	Cyflwynwch eich cais i gofrestru plaid newydd, neu i newid manylion eich plaid, erbyn y dyddiad hwn.
Diwrnod pleidleisio a diwedd y cyfnod a reoleiddir	Dydd Iau 5 Mai 2016	Rhaid i chi dderbyn eich holl anfonebau gan eich cyflenwyr ar neu cyn y dyddiad hwn. Rhaid i chi neu eich cyflenwr wneud cais am orchymyn llys i dalu anfonebau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.
Dyddiad cau ar gyfer derbyn anfonebau	Dydd Llun 6 Mehefin 2016	Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau ar neu cyn y dyddiad hwn. Rhaid i chi neu eich cyflenwr wneud cais am orchymyn llys i dalu anfonebau ar ôl y dyddiad hwn.
Dyddiad cau i dalu anfonebau	Dydd Llun 4 Gorffennaf 2016	Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau ar neu cyn y dyddiad hwn. Rhaid i chi neu eich cyflenwr wneud cais am orchymyn llys i dalu anfonebau ar ôl y dyddiad hwn.
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen gwariant, os gwariwch £250,000 neu lai	Dydd Gwener 5 Awst 2016	Cyflwynwch eich ffurflen gwariant i ni ar neu cyn 5 Awst 2016
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen gwariant, os gwariwch dros £250,000	Dydd Gwener 5 Tachwedd 2016	Sicrhewch fod eich ffurflen gwariant yn cael ei harchwilio a'i chyflwyno i ni cyn 5 Tachwedd 2016

Tabl o ddarpariaethau

Pwnc canllaw	Darpariaeth PPERA
Y cyfnod a reoleiddir	Atodlen 8 Rhan 2 para 6
Terfynau gwario	Adran 79 ac Atodlen 9 Rhan 2, para 6
Rheoli gwariant ar ymgyrchu	Adrannau 72-76
Gwariant ymgeiswyr rhanbarthol	Adran 72(4)
Pa weithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu	Adran 72 ac Atodlen 8 Rhan 1
Beth nad yw'n cyfrif fel gwariant	Adran 72 ac Atodlen 8 Rhan 1
Gwariant tybiannol	Adran 73
Rhannu gwariant	Adran 72 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Gall y Gorchymyn hwn newid yn dibynnu ar gymeradwyaeth Seneddol
Amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau	Adrannau 77 a 78
Rhoi gwybod i ni	Adrannau 80 a 82
Cofnodi gwariant ar ymgyrchu	Adran 75
Rhoi gwybod am ddyddiadau cau	Adran 82
Rhoddion a benthyciadau	Rhan 4 a 4A

*Mae hyn yn gywir ar 5 Hydref 2015. Caiff unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth eu diweddarau ar ein gwefan

Sut y gallwn helpu

Gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan. Gallwch gysylltu â ni ar y rhif ffôn isod neu drwy e-bost ar y cyfeiriadau isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

0333 103 1929

Neu e-bostiwch:

- Cymru: gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Cyffredinol: <mailto:pef@electoralcommission.org.uk>

Ewch i <http://www.comisiwnetholiadol.org.uk>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: <mailto:pef@electoralcommission.org.uk>